**CYNORTHWY-YDD CYMORTH DYSGU/GORUCHWYLIWR CYFLENWI**
**Gradd 5**

**DIBEN Y SWYDD:**

- Gweithio dan arweiniad athrawon a/neu aelodau o dîm arwain yr ysgol ac yn rhan o system oruchwylio y cytunwyd arni.
- Cefnogi unigolion a grwpiau o ddisgyblion i alluogi mynediad at ddysgu. Gallai hyn gynnwys y rheiny y mae angen gwybodaeth fanwl ac arbenigol mewn meysydd penodol arnynt e.e. llythrennedd, rhifedd.
- Cyfrannu at broses gynllunio’r athrawon i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael mynediad cyfartal at ddysg.
- Goruchwylio dosbarthiadau cyfan pan fo athrawon yn absennol am gyfnodau byr. Prif ganolbwynt y cyflenwi fydd ymateb i gwestiynau, cynorthwyo disgyblion i gyflawni gweithgareddau a pharhau â’u gwaith a chadw trefn.
- Gweithredu fel goruchwylydd arholiadau pan fo angen.
- Darparu cymorth gweinyddol i'r ysgol yn ôl yr angen.

**CYMORTH I DDISGYBLION:**

- Cofrestru a chofnodi presenoldeb myfyrwyr yn ôl y gofyn.
- Defnyddio sgiliau/profiad/hyfforddiant (cwricwlaidd/dysgu) arbenigol i gefnogi disgyblion.
- Cynorthwyo â datblygu a gweithredu CAUau a CYUau.
- Rhoi cyfarwyddyd ac adnoddau priodol i ddisgyblion.
- Creu amgylchedd tawel a phwrpasol lle gall disgyblion gwblhau gwaith sydd wedi ei osod.
- Meithrin perthnasoedd gwaith pwrpasol gyda disgyblion ac annog disgwyliadau uchel.
- Hyrwyddo cynhwysiant a derbyn pob disgybl o fewn yr ystafell ddosbarth.
- Ateb anghenion personol y disgyblion a gweithredu rhaglenni personol cysylltiedig gan gynnwys rhai cymdeithasol, iechyd, corfforol, hylendid, cymorth cyntaf, defnyddio’r tŷ bach, bwydo a symudedd.
- Yn dilyn hyfforddiant, rhoi meddyginiaeth yn unol â’r gweithdrefnau ar gyfer polisïau’r AALl a’r ysgol.
- Cefnogi disgyblion yn gyson gan gydnabod ac ymateb i’w hanghenion unigol.
- Annog disgyblion i ryngweithio a chydweithio gydag eraill.
- Hyrwyddo annibyniaeth a defnyddio strategaethau i gydnabod a gwobrwyo hunanddibyniaeth.
- Rhoi adborth effeithiol i ddisgyblion mewn perthynas â rhaglenni ac adnabod a gwobrwyo llwyddiant, gan gynnwys ymddygiad a phresenoldeb.
- Dilyn systemau a gweithdrefnau'r ysgol o ran rheoli ymddygiad.
- Marcio gwaith disgyblion a chofnodi cyrhaeddiad/cynnydd yn gywir.
- Gweithredu fel goruchwylydd arholiadau pan fo angen.

**CYMORTH I’R ATHRO:**

- Gweithio gyda’r athro i greu amgylchedd dysgu cefnogol, trefnus a phwrpasol.
- Gweithio gyda’r athro i gynllunio gwersi, gan werthuso ac addasu cynlluniau gwersi/gwaith yn ôl y gofyn.
- Monitro a gwerthuso ymatebion disgyblion i weithgareddau dysgu trwy arsylwi a chofnodi llwyddiant yn ôl yr amcanion a bennwyd.
- Rhoi gwybod i'r rheolwr llinell perthnasol am effaith rhaglenni ar ddysgu disgyblion.
- Rhoi cymorth clercaidd/gweinyddol cyffredinol e.e. gweinyddu gwaith cwrs, creu taflenni gwaith ar gyfer gweithgareddau fel y cytunwyd.
- Rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig i’r athro yn ôl y gofyn ar gynnydd a llwyddiannau disgyblion.
- Fel y cytunir â’r athro, bod yn gyfrifol am gadw a diweddaru cofnodion.  Fel y gofynnir, cyfrannu at adolygu systemau cadw cofnodion ysgolion.

**CYMORTH I’R CWRICWLWM:**

- Cynnal gweithgareddau dysgu/rhaglenni addysgu strwythuredig y cytunwyd arnynt.
- Gweithredu rhaglenni sy’n gysylltiedig â strategaethau dysgu lleol e.e. llythrennedd, rhifedd, TGCh.
- Yn ol cyfarwyddyd y rheolwr Cymorth i Fyfyrwyr, ymwneud yn benodol â math penodol o ymyriad er mwyn hyrwyddo dilyniant a pharhad i ddisgyblion. Llythrennedd, rhifedd, AAA, ACYP
- Gwneud defnydd effeithiol o gyfleoedd a gynigir gan weithgareddau dysgu eraill i gefnogi datblygu sgiliau perthnasol.
- Cynorthwyo’r defnydd o TGCh mewn gweithgareddau dysgu a datblygu cymhwysedd ac annibyniaeth disgyblion wrth ei defnyddio.
- Helpu disgyblion i fanteisio ar weithgareddau dysgu trwy gymorth arbenigol.
- Penderfynu ar yr angen am offer ac adnoddau cyffredinol ac arbenigol, eu paratoi, a’u cynnal a chadw.
- Cefnogi'r cwricwlwm wrth oruchwylio dosbarthiadau yn absenoldeb athro.

**CYMORTH I’R YSGOL:**

- Yn gwybod am bolisïau a gweithdrefnau sy’n ymwneud â chynhwysiant, amddiffyn plant, iechyd, diogelwch, cyfrinachedd a diogelu data, gan roi gwybod am bob pryder i berson priodol.
- Cyfrannu at ethos/gwaith/nodau cyffredinol yr ysgol, gan gynnwys y Cwricwlwm Cymreig.
- Sefydlu perthnasau pwrpasol a chyfathrebu ag asiantaethau/gweithwyr proffesiynol eraill mewn cysylltiad â’r athro i gynorthwyo cyrhaeddiad a chynnydd y disgyblion.
- Mynychu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd.
- Cymryd rhan mewn hyfforddiant a gweithgareddau dysgu eraill yn ôl yr angen.
- Adnabod eich cryfderau eich hun a meysydd y mae gennych arbenigedd ynddynt a’u defnyddio i gynghori a chefnogi eraill.
- Rhoi arweiniad a goruchwylio'n briodol a chynorthwyo gyda'r gwaith o hyfforddi a datblygu staff cymorth eraill fel sy'n briodol.
- Goruchwylio gweithgareddau dysgu a gynllunnir y tu allan i oriau ysgol.
- Goruchwylio disgyblion ar ymweliadau addysgol a gweithgareddau y tu allan i’r ysgol yn ôl y gofyn.

**Profiad**

- Profiad o weithio gyda phlant o'r oedran perthnasol.

**Cymwysterau**

- Sgiliau rhifedd/llythrennedd da iawn.
- NVQ 3 ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu neu gymhwyster cyfatebol e.e. Braille Lefel 2, BTEC:- Iaith a Lleferydd, BSL Lefel 2
- Hyfforddiant yn y strategaethau perthnasol i gefnogi dysgu e.e. llythrennedd neu feysydd penodol o glyw, iaith arwyddion, dyslecsia, TGCh, Mathemateg a Saesneg.
- Hyfforddiant cymorth cyntaf priodol.

**Gwybodaeth / Sgiliau**

- Gallu defnyddio TGCh yn effeithiol i gefnogi dysgu.
- Defnyddio offer a thechnoleg – fideo, llungopïwr.
- Gwybodaeth ymarferol lawn am bolisïau/codau ymarfer perthnasol ac ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth berthnasol.
- Gwybodaeth weithiol o lwybrau cenedlaethol/cyfnod sylfaen, cwricwlwm 14-19 a rhaglenni/strategaethau dysgu perthnasol eraill fel y bo'n briodol.
- Dealltwriaeth o egwyddorion datblygu plant a phrosesau dysgu.
- Gallu hunanwerthuso anghenion dysgu a chwilio am gyfleoedd dysgu.
- Gallu gweithio'n adeiladol yn rhan o dîm, gan ddeall rolau a chyfrifoldebau'r ystafell ddosbarth a'ch rôl eich hun yn y rhain.

**Crynodeb**

- Rhan o'r cylch cynllunio cyfan
- Gweithredu rhaglenni gwaith
- Gwerthuso a chadw cofnodion
- Gweithio yn absenoldeb y goruchwylydd
- Arbenigwr AAA / pwnc / llythrennedd/rhifedd/lles
- Cymorth bugeiliol
- Mentoriaid dysgu
- Cymorth ymddygiad
- Gwaharddiadau, presenoldeb